| Datganiad Ymgysylltu â Rhanddeiliaid | | | |
|---|---|---|---|
| **Adran** | Tîm Gweithredol yr Is-Ganghellor / Bwrdd yr Is-Ganghellor / Bwrdd Llywodraethwyr | | |
| **Awdur** | Yr Is-Ganghellor / Clerc y Bwrdd | | |
| **Awdurdodwyd gan:** | Tîm Gweithredol yr Is-Ganghellor / Bwrdd yr Is-Ganghellor / Bwrdd Llywodraethwyr | | |
| **Gweithredir gan:** | Tîm Gweithredol yr Is-Ganghellor | | |
| **Cyfeirnod:** | STABOG2021049 | | |
| **Adnewyddu:** | Amherthnasol | | |
| **Fersiwn Rhif:** | 2 | **Pwyllgor Cymeradwyo:** | Tîm Gweithredol yr Is-Ganghellor 21/9/22<br>Bwrdd Llywodraethwyr 7/10/22 |
| **Dyddiad cymeradwyo:** | 7/10/22 | **Cofnod rhif:** | 22.11 |
| **Statws:** | Cymeradwywyd | **Dyddiad gweithredu:** | Hydref 2022 |
| **Cyfnod cymeradwyo:** | 3 blynedd | **Dyddiad adolygu:** | Hydref 2025 |

## 1. CYFLWYNIAD

### Diffiniadau

1.1 Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid yn cyfeirio at y broses a ddefnyddir gan brifysgol i adnabod, deall, cynnwys ac ymateb i'w rhanddeiliaid. Gall ymgysylltu â rhanddeiliaid gynorthwyo prifysgolion i gasglu gwybodaeth i hysbysu penderfyniadau ac asesiadau effaith a pherfformiad, a chreu ymddiriedaeth, hyder a dealltwriaeth ymhlith eu rhanddeiliaid. Gellir cyflawni ymgysylltu â rhanddeiliaid trwy ystod eang o fecanweithiau, a gall gynnwys rhyngweithio un ffordd neu ddwy ffordd, a gall fod yn oddefol neu'n gyfranogol ei natur.[1]

1.2 Rhanddeiliaid yw unigolion, grwpiau neu sefydliadau â buddiant yng ngweithgareddau prifysgol. Gall rhanddeiliaid fod yn rhai mewnol neu allanol i'r brifysgol. Gallai eu buddiant ddeillio o ganlyniad i gael eu heffeithio gan weithredoedd, amcanion, polisïau neu benderfyniadau prifysgol, neu oherwydd eu bod yn ceisio dylanwadu ar y rhain. Gall rhanddeiliaid fod yn bryderus am wir effeithiau neu effeithiau potensial. Gallai rhanddeiliaid fod yn gysylltiedig â phrifysgol o ganlyniad i gontract, cysylltiadau ffurfiol neu anffurfiol neu fuddiant nad yw'n cael ei amlygu trwy unrhyw berthynas uniongyrchol â'r brifysgol. Gallai rhanddeiliaid fod â buddiant mewn prifysgol yn y gorffennol, y presennol neu'r dyfodol, gallai'r buddiant fod yn hirhoedlog neu'n fyrhoedlog a gallai graddau'r buddiant amrywio dros amser.[2]

### Cyd-destun

1.3 Ein cenhadaeth yw *ysbrydoli a galluogi trwy addysg uwch, ymchwil ac ymgysylltu; gan weithio ar y cyd â'n myfyrwyr, ein staff a'n partneriaid.* Sylfaenir ein gweithgareddau ar ein gwerthoedd craidd o fod yn hygyrch, cefnogol, arloesol ac uchelgeisiol.

[1] Ymgysylltu effeithiol â rhanddeiliaid, canllaw ymarfer dda i Brifysgolion Cymru, David Price Consulting, Mai 2022
[2] Ymgysylltu effeithiol â rhanddeiliaid, canllaw ymarfer dda i Brifysgolion Cymru, David Price Consulting, Mai 2022

1.4 Rydym ni'n cynnal deialog barhaus â grwpiau eang o randdeiliaid a'n nod yw gofyn am ac ystyried eu barn wrth ddatblygu a gweithredu ein Gweledigaeth a Strategaeth a strategaethau allweddol ategol eraill yn ogystal ag am sut rydym ni'n gweithredu ac yn perfformio ein swyddogaeth yn y gymuned, y rhanbarth, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

1.5 Rydym ni'n ymwneud yn ddinesig ac yn cydweithredu'n allanol ar draws sectorau, diwydiannau a llywodraeth leol a chenedlaethol ac yn gweithio mewn partneriaeth agos gyda'n myfyrwyr a'n staff. Rydym yn medru gwasanaethu ein rhanddeiliaid orau pan rydym ni wedi ein hysbysu'n dda am natur ac anghenion y rhanddeiliaid hynny.

1.6 Yn y cyfan rydym ni'n ceisio ei gyflawni mae cyfraniad ein myfyrwyr, ein staff a'n partneriaid allanol yn hanfodol bwysig, yng nghyd-destun gwerthoedd craidd y Brifysgol.

## 2. SUT YDYM NI'N YMGYSYLLTU Â'N GRWPIAU RHANDDEILIAID?

### Ein myfyrwyr

2.1 **Myfyrwyr sydd flaenaf yn ein gwaith, ac rydym ni'n edrych tuag atynt ac yn gwrando ar eu llais i helpu siapio'r hyn rydym ni'n ei wneud a sut rydym ni'n ei wneud, trwy weithio mewn partneriaeth agos â'r Undeb Myfyrwyr ac yn uniongyrchol â myfyrwyr trwy ddulliau amrywiol.**

2.2 Mae ein Gweledigaeth a Strategaeth 2025 a'n Strategaeth Cefnogi Dysgu a Chyflawniad Myfyrwyr yn amlinellu blaenoriaeth y Brifysgol i *weithio â myfyrwyr fel partneriaid i ddatblygu dull ymgysylltu â myfyrwyr wedi'i wreiddio yn ein diwylliant* gan ein bod yn gweithio'n fwy effeithiol gyda'n gilydd.

2.3 Mae gennym Siarter Myfyrwyr a ddatblygwyd ar y cyd â'r Undeb Myfyrwyr sy'n nodi'r hyn y medrwn ei ddisgwyl gan ein gilydd fel partneriaid mewn cymuned ddysgu.

2.4 Hefyd mae gennym ni Fframwaith ar gyfer ymgysylltu â myfyrwyr sy'n amlinellu'r ffyrdd rydym ni'n ymgysylltu â myfyrwyr ac yn esbonio beth sy'n digwydd i'r wybodaeth a gawn trwy'r gweithgareddau ymgysylltu hyn.

2.5 Mae myfyrwyr yn bresennol ac yn meddu ar lais ar gyrff allweddol gwneud penderfyniadau yn y Brifysgol: y Bwrdd Llywodraethwyr, y Bwrdd Academaidd a Bwrdd yr Is-Ganghellor. Maent yn chwarae rôl allweddol yn ein rhyngweithio â chyrff rheoleiddio ac adolygu megis Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) a'r Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd.

### Ein staff

2.6 **Mae proffesiynoldeb ein staff yn allweddol wrth alluogi gwireddu ein Gweledigaeth a Strategaeth, ac rydym ni'n cefnogi, ymgysylltu â, a gwrando ar ein staff i sicrhau ein bod yn cyflawni, tra'n sicrhau bod hyn yn cael ei wneud mewn modd teg a chyfrifol.**

2.7 Rydym wedi ymrwymo i ymgysylltu â'n staff trwy amrediad o fecanweithiau, yn cynnwys grwpiau ffocws, cyrff cynrychiolwyr staff, cynadleddau a gweithdai. Cynigir ystod eang o gyfleoedd datblygu staff bob blwyddyn, ar lefel y brifysgol gyfan, lefel adrannau lleol yn ogystal ag yn allanol.

2.8 Rydym ni'n monitro ansawdd ein hymgysylltu â staff bob dwy flynedd drwy gyfrwng arolwg ymgysylltu â staff a thrafodir y canlyniadau mewn grwpiau ffocws staff i benderfynu sut i fynd i'r afael â'r gwelliannau a nodwyd trwy'r arolwg. Mae'r meysydd a ystyrir yn yr arolwg yn cynnwys sut mae pobl yn teimlo o ran arweinyddiaeth, ysbrydoliaeth a grymuso; sut y

rheolir ac y gwerthfawrogir eu perfformiad; safon ein cyfathrebu ac a yw pobl yn fodlon â'r amodau gwaith ai peidio. Mae data'r arolwg yn cael ei gasglu a'i feincnodi gan sefydliad allanol annibynnol.

**Ein partneriaid allanol**

2.9 **Mae partneriaid allanol, cefnogwyr a ffrindiau yn hanfodol i sicrhau perthnasedd a deall gwerth y Brifysgol wrth ysgogi llwyddiant economaidd, cymdeithasol a diwylliannol y cymunedau rydym ni'n eu gwasanaethau; mae ein partneriaethau'n cyfoethogi'r hyn a gynigiwn.**

2.10 Mae gennym ni ddatganiad cyfrifoldeb cymdeithasol sy'n nodi ein hamcanion i ymgysylltu yn ein perthnasoedd a'n gweithrediadau. Yn ychwanegol, mae ein Fframwaith Cenhadaeth Ddinesig yn nodi sut rydym ni'n gwneud gwaith trawsffurfiol trawstoriadol ag awdurdodau lleol, cyrff iechyd, partneriaid addysg a phartneriaid cenedlaethol, yn cynnwys myfyrwyr a staff. Mae hyn yn lleoli'r brifysgol fel un o 'Arweinyddion Lle' yn ein cymuned, ehangu ein partneriaethau, bod yn sylfaen i fudd cymdeithasol a darparu cyfleoedd dinasyddiaeth weithredol sy'n cael effaith go iawn.

2.11 Rydym ni'n gwahodd yr holl randdeiliaid i'n Cyfarfod Agored Blynyddol lle rydym ni'n adrodd ar ein perfformiad yn y flwyddyn flaenorol a'n cynlluniau i'r dyfodol; ac yn defnyddio amrediad o fecanweithiau lle rydym ni'n gofyn am farn rhanddeiliaid allanol, fel aelodau o fyrddau cynghori a phwyllgorau.

2.12 Mae'r Is-Ganghellor, ac aelodau'r uwch Dîm Gweithredol a gefnogir gan eu timau eu hunain, yn gyfrifol am gynnal perthynas â rhanddeiliaid ar lefel gorfforaethol, a briffio'r Bwrdd Llywodraethwyr a chydweithwyr sy'n uwch reolwyr am eu hymgysylltu â rhanddeiliaid allanol, a allai fod ar sail un i un neu drwy strwythurau ffurfiol. Mae'r Brifysgol yn adolygu statws ac yn mapio grwpiau rhanddeiliaid allanol o dro i dro ac yn nodi lle mae bylchau posibl. Mae perthnasoedd â rhanddeiliaid allanol yn cael eu meithrin mewn modd hyblyg ac ymatebol.

**Prif Randdeiliaid**

2.13 Mae'r tabl isod yn cynrychioli prif gategorïau rhanddeiliaid y Brifysgol ac yn nodi pwrpas a natur yr ymgysylltu â nhw.

| Categori Rhanddeiliaid | Enghreifftiau o randdeiliaid | Sut rydym ni'n ymgysyllu â nhw |
|---|---|---|
| Myfyrwyr | Cyfredol, darpar fyfyrwyr, myfyrwyr sy'n ymweld | Deialog trwy gyfrwng diwrnodau agored a gweithgareddau recriwtio cysylltiedig.<br>Gweithio mewn partneriaeth â'r Undeb Myfyrwyr.<br>Adolygu'r Siarter Myfyrwyr â'r Undeb Myfyrwyr yn flynyddol<br>Cynrychiolwyr myfyrwyr ar Bwyllgorau'r Brifysgol, ac yn bresennol mewn digwyddiadau dilysu ac adolygu rhaglenni, mewn adolygiad gwella ansawdd allanol ac archwiliadau ac arolygiadau eraill y sefydliad<br>Cynrychiolwyr myfyrwyr ar lefel Cyfadran, cwrs, pwyllgor a Bwrdd ac ar weithgorau perthnasol<br>Fforymau Llais y Myfyriwr<br>Ymateb i arolygon myfyrwyr *er enghraifft:*<br>Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr (NSS), Arolwg Deilliannau Graddedigion, Arolwg Gwerthuso Modiwl gan Fyfyrwyr a dull darparu adborth ar-lein yr Undeb Myfyrwyr.<br>Ymateb i a dysgu o brosesau cwynion gan fyfyrwyr. |

| Categori Rhanddeiliaid | Enghreifftiau o randdeiliaid | Sut rydym ni'n ymgysyllu â nhw |
|---|---|---|
| | | Ymgysylltu gan y corff Llywodraethu drwy ymweld ag adrannau gwasanaethau academaidd. |
| Staff | Cyfredol, darpar staff, staff emeritws, staff sy'n ymweld | Deialog o ddydd i ddydd, cyfarfodydd a phwyllgorau.<br>Ymateb i a dysgu o'r Arolygon Ymgysylltu â Staff bob dwy flynedd ac arolygon 'pwls' cyfnodol.<br>Cynrychiolwyr staff ar gyrff gwneud penderfyniadau'r Brifysgol.<br>Ymgysylltu gan y corff Llywodraethu drwy ymweld ag adrannau gwasanaethau academaidd a gwasanaethau proffesiynol. |
| Busnes, diwydiant a masnach | Fforymau rhanbarthol fel Conffederasiwn Diwydiant Prydain, Sefydliad y Cyfarwyddwyr, Sefydliad y Busnesau Bach a Siambrau Masnach. | Aelodaeth ragweithiol o grwpiau rhanbarthol a chenedlaethol, yn cynnwys Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a Chynghrair Merswy Dyfrdwy. |
| Cyflogwyr yn y sector cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector a phlatfformau cymunedol ehangach. | Cyflogwyr mawr/arwyddocaol yn y rhanbarth a/neu'n berthnasol i'r brifysgol.<br><br>Cyrff Rheoleiddio Statudol Cyhoeddus. | Rhyngweithio ar lefel rhaglen academaidd a gwasanaethau proffesiynol yn canolbwyntio ar anghenion sgiliau, datblygu'r cwricwlwm, cyfleoedd ymchwil a chyflogadwyedd graddedigion.<br>Mentrau ymgysylltu dinesig, lleoliadau gwaith a gwirfoddoli sy'n cynnwys staff a myfyrwyr.<br>Cynadleddau a digwyddiadau ar y campws. |
| Cymunedau lleol | Trigolion lleol, busnesau lleol, cymdeithasau/grwpiau diddordeb cymunedol lleol a sefydliadau celf a chwaraeon lleol. | Ymgysylltu trwy ein gweithgareddau Cenhadaeth Ddinesig.<br>Aelodaeth weithredol grwpiau diddordeb cymunedol fel Partneriaeth Porth Wrecsam. |
| Llywodraeth leol, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig | Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, Aelodau Seneddol, Aelodau Senedd a Chynghorau a chynghorwyr yng Nghymru a Lloegr, y Cyngor Prydeinig, Bwrdd Llywodraethwyr y Brifysgol, UKVI, sefydliadau sector cyhoeddus a thrydydd sector. | Deialog â chynrychiolwyr gwleidyddol ac uwch weision sifil.<br>Cyfraniadau a mewnbwn adeiladol i fforymau rhanbarthol a chenedlaethol.<br>Ymgysylltu a dylanwadu drwy ohebiaeth a rhwydweithio.<br>Ymgysylltu pwrpasol i ddangos atebolrwydd am berfformiad y Brifysgol a chydymffurfio â rheoliadau, cyfarwyddebau a gofynion.<br>Dulliau rhagweithiol o fanteisio ar gyfleoedd cyllido.<br>Ymgysylltu uniongyrchol hefyd yn ogystal â drwy gyrff y sector ac aelodau byrddau.<br>Rhyngweithio rheolaidd â'r Bwrdd Llywodraethwyr drwy'r strwythur pwyllgorau. |
| Cyrff ymbarel cyllido a rheoleiddio | CCAUC, CTER, y Comisiwn Elusennau, cyrff achredu a phroffesiynol, UKVI, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, Comisiynydd y Gymraeg, UKRI, elusennau, busnesau a diwydiant, noddwyr y brifysgol, Coleg Cymraeg Cenedlaethol, benthycwyr, GuildHE, Cymdeithas Ddysgedig Cymru, UCEA | Cyfraniadau a mewnbwn adeiladol i fforymau rhanbarthol a chenedlaethol.<br>Ymgysylltu a dylanwadu drwy ohebiaeth a rhwydweithio.<br>Ymgysylltu pwrpasol i ddangos atebolrwydd am berfformiad y Brifysgol a chydymffurfio â rheoliadau, cyfarwyddebau a gofynion.<br>Dulliau rhagweithiol o fanteisio ar gyfleoedd cyllido.<br>Ymgysylltu uniongyrchol hefyd yn ogystal â drwy gyrff y sector ac aelodaeth byrddau. |

| Categori Rhanddeiliaid | Enghreifftiau o randdeiliaid | Sut rydym ni'n ymgysyllu â nhw |
|---|---|---|
| Sefydliadau'r sector addysg uwch | UUK, Prifysgolion Cymru, UCEA, Advance HE, Jisc, OIA, QAA, HESA, UCAS, BUFDG, | Aelodaeth a/neu gynrychiolaeth y Brifysgol ar gyrff perthnasol. Cyfnewid gwybodaeth a rhannu arferion da. |
| Cyfeillion y Brifysgol | Cymrodorion anrhydeddus, cyn-fyfyrwyr | Rhwydwaith cyn-fyfyrwyr: cefnogaeth barhaus trwy'r Gwasanaeth Gyrfaoedd ac adrannau academaidd lleol. Cymrodorion Anrhydeddus: sicrhau eu diweddaru trwy rannu cyfathrebiadau swyddfa'r Is-Ganghellor a gwahoddiadau i ddigwyddiadau'r Brifysgol. |
| Y cyfryngau (mewn print ac ar-lein) | Teledu, radio, papurau newydd, cyfryngau digidol | Datganiadau i'r wasg am ddatblygiadau corfforaethol neu'n ymwneud â staff neu fyfyrwyr sy'n cyfoethogi enw da'r Brifysgol. Darnau mynegi barn/ymateb i ymholiadau. Blogiau, flogiau a negeseuon cyfryngau cymdeithasol. |
| Darparwyr addysgol eraill | Partneriaid, [cystadleuwyr], colegau Addysg Bellach lleol, ysgolion | Cydweithredu, rhwydweithio a meincnodi â sefydliadau cymheiriaid yn y sector Prifysgolion (yn a thu hwnt i Gymru). Rhwydweithiau Addysg Uwch arbenigol ar gyfer meysydd swyddogaethol. Cytundebau dilyniant ag ysgolion a cholegau sy'n bwydo'r Brifysgol, yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol. Darparu mewn partneriaeth drwy bortffolio estynedig (y DU a rhyngwladol). |
| Awdurdodau cyhoeddus | Awdurdodau lleol, yr Heddlu, yr Awdurdod Tân ac Achub, Byrddau Iechyd lleol. | Cyfnewid gwybodaeth a rhannu arferion da. Cydweithredu a rhwydweithiau arbenigol i wella dealltwriaeth o ddiogelwch a gweithrediadau y partïon i gyd. Rhyngweithio ar lefel rhaglen academaidd a gwasanaethau proffesiynol yn canolbwyntio ar anghenion sgiliau, datblygu'r cwricwlwm, cyfleoedd ymchwil a chyflogadwyedd graddedigion. |
| Undebau Llafur cydnabyddedig | UNSAIN, Undebau Prifysgol a Choleg (UCU) | Ymgysylltu ffurfiol drwy aelodaeth y Cyd-bwyllgor Negodi ac Ymgynghori (JNCC) sy'n cynnwys aelodau Bwrdd Gweithredol yr Is-Ganghellor. |
| Cynlluniau pensiwn wedi'u cyllido | USS, Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, Cynllun Pensiwn Athrawon | Ymgysylltu uniongyrchol. |
| Cyflenwyr | Darparwyr gwasanaethau wedi'u contractio allan, darparwyr preifat llety preswyl i fyfyrwyr, cyflenwyr nwyddau a gwasanaethau. | Ymgysylltu drwy brosesau caffael a dysgu o brosiectau neu gontractau gwasanaeth a gwblhawyd. |

Dynodir rhanddeiliaid mewnol yn goch

## 3. Monitro ac Adolygu

Bydd y datganiad hwn yn cael ei adolygu o leiaf bob tair blynedd.